**CYNORTHWY-YDD CADW TŶ**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Profiad
Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i: Cydlynydd Cyfleusterau a Goruchwylydd Cadw Tŷ
Graddfa: OP1

**Pwrpas y Swydd**
Fel Cynorthwy-ydd Cadw Tŷ, byddwch yn gweithio fel rhan o dîm i gyflawni amrywiaeth o dasgau a dyletswyddau glanhau rheolaidd ac untro yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Profiad a'r Goruchwylydd Cadw Tŷ.

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Gwagio biniau gwastraff ac ailgylchu neu gynwysyddion tebyg, cludo deunydd gwastraff i bwyntiau casglu penodol.
- Ysgubo lloriau gyda brwshys neu fopiau rheoli llwch.
- Mopio lloriau gyda mopiau gwlyb neu laith.
- Hwfro a glanhau carpedi a rygiau.
- Defnyddio peiriannau sgwrio / sgleinio wedi'u pweru'n electronig i sgwrio, sgleinio, chwistrellu a glanhau lloriau.
- Tynnu llwch, sychu gyda chadach llaith, golchi neu sgleinio dodrefn, silffoedd, silffoedd ffenestri ac arwynebau allanol cypyrddau, rheiddiaduron, silffoedd a ffitiadau.
- Ail-lenwi eitemau traul (sebon, papur toiled, tywelion papur) os oes angen.
- Glanhau toiledau, iwrinalau, basnau llaw a sinciau.
- Defnyddio deunyddiau cemegol yn ôl yr angen wrth gyflawni unrhyw weithredoedd glanhau neu weithdrefnau cynnal a chadw wrth gadw at ganllawiau ar gyfer defnydd.

**Gweinyddu**

- Cadw golwg ar lefelau stoc glanhau a rhoi gwybod i'r Goruchwylydd Cadw Tŷ am lefelau stoc isel (e.e. cynhyrchion glanhau).
- Cyflawni tasgau gweinyddol arferol sy'n ofynnol e.e. ticio tasgau glanhau ar daflenni manyleb glanhau dyddiol.

**Arall**

- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl gofynion rhesymol y Cydlynydd Cyfleusterau a'r Goruchwylydd Cadw Tŷ.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Gwybodaeth am ddyletswyddau cadw tŷ cyffredinol.
- Gallu dilyn cyfarwyddiadau a chyflawni tasgau dirprwyedig yn gywir yn effeithiol ac o fewn amserlenni penodol.
- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau.
- Prydlon a dibynadwy.
- Gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel aelod o dîm i gyrraedd safonau penodol.
- Bod yn hyblyg i ofynion y swydd fel maen nhw'n newid.
- Ymfalchïo mewn gwaith da.

**Dymunol**

- Gallu cyflawni dyletswyddau glanhau cyffredinol fel y manylir uchod.
- Dealltwriaeth o reoliadau COSHH.
- Profiad o weithio mewn theatr neu amgylchedd hamdden.
- Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd glanhau masnachol.